## Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â meistroli allbynnau sain terfynol i fodloni gofynion creadigol. Mae hyn yn ymwneud â defnyddio sgiliau gwrando beirniadol i adnabod mân raddfeydd gwahanol mewn deunydd stereo wedi'u cymysgu'n wael, neu pan fyddwch yn cywasgu cymysgedd stereo i fod yn signal mono.

Mae'r safon hon yn ymwneud â gwerthuso deunydd sain yn feirniadol, adnabod problemau a thrwsio neu addasu deunydd sain i'w hadfer nhw, dewis ffurfiau priodol a meistroli allbynnau sain yn unol â'r gofynion ansawdd a diogelwch.

Mae'r safon hon ar gyfer peirianwyr recordio, peirianwyr golygu, peirianwyr meistroli, peirianwyr cymysgu a rhaglenwyr sy'n meistroli allbynnau sain terfynol.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gosod man monitro priodol ar gyfer meistroli
2. 

cynnal dadansoddiad clywedol o allbynnau sain gan gydymffurfio gyda'r gofynion ansawdd a chreadigol y cytunwyd arnyn nhw

1. defnyddio cyfarpar priodol i werthuso ansawdd y sain
2. adnabod perfformiadau tiwnio neu draw sydd â phroblemau amlwg
3. 

adnabod mân raddfeydd o wahaniaeth  yng nghyfansoddion cymysgeddau sy'n newid dros amser

1. adnabod union leoliadau allbynnau sain sydd â phroblemau amlwg
2. defnyddio datrysiadau wedi'u hawdurdodi i drwsio problemau a thrafferthion gyda'r sain
3. cofnodi a rhoi gwybod am broblemau sain nad oes modd eu datrys a'u hachosion posib i'r bobl briodol
4. dewis ffurfiau priodol ar gyfer allbynnau sain
5. trawsyrru deunyddiau sain yn unol â'r gofynion ansawdd
6. 

gweithredu’r holl gyfarpar yn unol â'r gofynion diogelwch bob amser

1. ail-osod a thacluso’r holl gyfarpar pan fydd y gwaith wedi'i gwblhau

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i osod system monitro stereo sylfaenol A/B
2. sgiliau gwrando beirniadol a sgiliau clywedol ynghyd â thechnegau dadansoddi sain
3. y gwahaniaethau rhwng signalau mono a stereo a signalau graddoli mewn a graddoli allan yn y gadwyn signalau
4. nodweddion darnau o gerddoriaeth o wahanol genres
5. technegau recordio a chynhyrchu ynghyd ag offeryniaeth gaiff eu defnyddio mewn gwahanol genres
6. agweddau o theori cerddoriaeth sylfaenol ac arddulliau gaiff eu creu
7. cyfarpar i werthuso ansawdd a sut i'w ddefnyddio gan gynnwys seinyddion monitor cyfeirnod agos a phell a chlustffonau proffesiynol
8. codecs digidol ac effeithiau defnyddio codecs graddfa crwcddarn uchel ac isel
9. amryw o broblemau sain cyffredin
10. datrysiadau a ganiateir ar gyfer trwsio problemau sain
11. problemau stereo gallwch chi neu na allwch chi eu trwsio
12. problemau sain nad oes modd eu trwsio
13.

ansawdd chwarae amryw gyfryngau defnyddwyr

1. sut i adnabod perfformiadau tiwnio neu draw gwael
2. cyfansoddion cymysgeddau a all newid dros amser gan gynnwys cydbwysedd amledd, cydbwysedd uchder sain, defnydd o effeithiau, effeithiau dynameg (gwahardd a chywasgu)
3. sut i adnabod rhifau traciau'r rhannau anghyflawn
4. yr ystod o ffurfiau ar gyfer allbynnau sain
5. gofynion ansawdd a chreadigol
6. egwyddorion iechyd a diogelwch o ran gwrando'n ddiogel gan gynnwys trefniadau diogelu i atal colli clyw

CCSMT13

Meistroli allbynnau sain terfynol i fodloni gofynion creadigol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 30 Maw 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Maw 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative and Cultural Skills |
| **RCU gwreiddiol** | CCSMT25 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Peirianwyr Meistroli, Peirianwyr Recordio, Cynhyrchwyr Recordio, Peirianwyr Cymysgu, Peirianwyr Cynorthwyol, Peirianwyr Darllediadau tu allan / ôl gynhyrchu, Gweithredwyr Tapiau, Cyfansoddwyr Cerddoriaeth Ffilm, Ysgrifenwyr, Cyn ac ôl Gynhyrchu, Peirianwyr Golygu |
| **Cyfres/Set** | Recordio Sain a Thechnoleg Cerddoriaeth |
| **Geiriau Allweddol** | Deunydd sain; Gofynion creadigol; Sain; Cerddoriaeth; Recordio Sain; Meistroli; Technoleg Cerddoriaeth |